**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Llun, 26 Medi 2022**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Wyn Evans (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Gwyn Wigley Evans, Cynghorydd Rhodri Evans, Cynghorydd Geraint Wyn Hughes, Cynghorydd Chris James a/ac Cynghorydd Caryl Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor), Y Cynghorydd Alun Williams, Y Cynghorydd Mathew Vaux, Y Cynghorydd Keith Henson, Y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelodau Cabinet) a'r Cynghorydd Hugh Hughes.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elin Prysor, Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol; Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol, Partneriaethau a Pherfformiad; Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi a Pherfformiad; Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Carwyn Williams a Llinos Williams, Cyfieithwyr.

(10.00 - 11.47 am)

**11 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Endaf Edwards a Ceris Jones am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**12 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.

**13 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2021/22**

Daeth Sian Howys a'r Cynghorydd Alun Williams (Aelod Cabinet) i'r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR / CWMPAS i Aelodau'r Pwyllgor. Gwnaed hyn i sicrhau bod yr aelodau'n monitro'r cynnydd a wnaed yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp

Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS. Adroddiadau rheoli amlasiantaethol oedd y rhain ynghylch diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2022. Roeddent yn darparu gwybodaeth ynghylch y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Amlinellodd Sian y prif bwyntiau a oedd wedi'u nodi yn y blaen adroddiad. Cododd un o'r Aelodau bryderon bod yr atgyfeiriadau Amddiffyn Plant yn ardal Aberystwyth wedi dyblu yn ystod y chwarter dan sylw. Wrth ymateb i'r pryder, esboniwyd bod atgyfeiriadau diogelu, o bryd i'w gilydd, yn medru cael eu gwneud mewn grŵp, h.y. mwy nag un unigolyn mewn un teulu neu mewn grŵp cyfoedion. Gallai fod hefyd ffactorau tymhorol. Nododd Aelod arall fod o unigolion wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr Amddiffyn Plant gan ofyn a oeddent yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn awtomatig pan fyddent yn cyrraedd oed penodol. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai hyn yn digwydd pan fyddai'r unigolyn yn troi'n 18 oed. Codwyd pryder hefyd fod y data yn dangos nad oedd pob cynhadledd adolygu amddiffyn plant yn cael ei chynnal o fewn y terfynau amser angenrheidiol. Esboniodd y Swyddog fod swyddi gwag yn golygu bod y gweithlu o dan bwysau mawr a bod y gweithwyr felly yn blaenoriaethu tasgau. Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd adolygiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal bellach ym Mhenmorfa a Chanolfan Rheidol fel yr oeddent cyn cyfnod y Covid. Cadarnhawyd nad oedd y swyddfeydd hyn wedi ailagor i'r cyhoedd ond byddai lleoliadau priodol eraill yn cael eu defnyddio at y diben hwn pan fyddai angen. Cadarnhawyd hefyd fod y defnydd a wneir o'r swyddfeydd yn cael ei adolygu'n gorfforaethol. Cyfeiriwyd at hunan-niweidio ymhlith plant a chadarnhaodd y Swyddog mai tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd yn darparu'r data yn yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod gan Aelodau Pwyllgorau Craffu yr hawl i wahodd unrhyw sefydliadau allanol i'r cyfarfodydd er mwyn iddynt gael eu holi. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, y Cynghorydd Caryl Roberts, y dylid gwahodd cynrychiolydd o dîm CAMHS i un o gyfarfodydd y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a gweithgarwch yr Awdurdod Lleol. Cytunodd yr Aelodau i nodi'r cynnwys fel bod trefniadau llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid yn cael eu monitro.

Diolchodd y Cadeirydd i Sian Howys am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad a diolchodd hefyd am y Crynodeb Gweithredol a oedd wedi'i baratoi.

**14 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022 ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022**

Croesawodd y Cadeirydd Naomi McDonagh, Diana Davies ac Alun Williams ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies (Aelod Cabinet) i'r cyfarfod i gyflwyno cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion.

O dan Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu’r pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau. Roedd yn ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn craffu ar adroddiadau blynyddol. Yn wahanol i’r asesiadau llesiant a’r cynlluniau llesiant, nid oedd yn rhaid i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus aros ar gyfer argymhellion y panel craffu i gymeradwyo adroddiadau blynyddol ond, roedd y Bwrdd yn cael ei annog i ddefnyddio argymhellion Craffu wrth ddatblygu rhaglenni gwaith a chyflwyno adroddiadau yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiwyd mor bwysig oedd cynnwys yr Aelodau Lleol yn unrhyw drafodaeth / ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â’u wardiau gan fod eu mewnbwn yn werthfawr.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i’r Aelodau dderbyn cofnodion drafft cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 yn ogystal â derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2021-2022.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Swyddogion ynghyd ag Arweinydd y Cyngor am ddod i’r cyfarfod ac am gyflwyno’r adroddiad.

**15 Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)**

Cyflwynodd Elin Prysor adroddiad ynghylch defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) gan mai Aelodau’r Pwyllgor Cydlynu oedd yn gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o RIPA. Fel arfer, byddai adroddiadau i’r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno bob 6 mis; fodd bynnag, cyflwynwyd yr adroddiad hwn 12 mis ar ôl yr un blaenorol oherwydd diffyg gweithgarwch RIPA.

Adroddwyd na fu gweithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau’r Cyngor rhwng 13 Awst 2021 a 4 Gorffennaf 2022. Cadarnhaodd y Swyddogion Awdurdodi nad oeddent wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 28 Chwefror 2022, cyflwynodd darparwr allanol weithdy hyfforddiant hanner diwrnod ynglŷn â RIPA i’r swyddogion perthnasol. Dywedwyd y byddai Adroddiad Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Elin Prysor am ddod i’r cyfarfod ac am gyflwyno’r adroddiad.

**16** **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2021/2022**

Dywedodd Lisa Evans fod yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn amlinellu'r prif faterion a ystyriwyd gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystod 2021/2022.

Roedd dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar y dudalen Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 20 Hydref 2022.

**17** **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Rhoddodd pob Cadeirydd ddiweddariad am waith eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar y Blaenraglenni Gwaith:
Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus – Peiriannau Talu ac Arddangos ym Meysydd Parcio'r Cyngor.
Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol – gofyn am adroddiad diweddaru ynglŷn â Threth y Cyngor ar Ail Gartrefi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Rhagfyr 2022;
Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach – gwahodd cynrychiolydd o Dîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) y Bwrdd Iechyd i un o gyfarfodydd y dyfodol i roi diweddariad am y gwasanaeth; a gofyn am ddiweddariad ynglŷn â phroblemau recriwtio o ran timau Porth Cynnal, Porth Gofal a Phorth Cymorth Cynnar.

**18** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-lynu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 yn gywir ac nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 11:47am.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 14 Hydref 2022**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________